COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD

EICH OPSIYNAU TAI

CANLLAW AR YR OPSIYNAU TAI SYDD AR GAEL YNG NGWYNEDD

PARTNERIAETH COFRESTR TAI GYFFREDIN GWYNEDD COMMON HOUSING REGISTER PARTNERSHIP

Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd sydd yn rheoli'r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Tai Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin a Cartrefi Cymunedol Gwynedd. *Gwynedd Council Housing Options manage the Common Housing Register on behalf of North Wales Housing, Grŵp Cynefin and Cartrefi Cymunedol Gwynedd.*

EICH OPSIYNAU TAI

Mae'r llyfryn yma yn cynnwys gwybodaeth yr ydym yn gobeithio fydd o ddefnydd i chi ystyried yr opsiynau tai gorau i chi yng Ngwynedd.

Efallai eich bod yn edrych am lety i'w rentu yn y sector preifat, cymorth gyda prynu eiddo am y tro cyntaf neu edrych i gael mynediad i lety cymdeithasol. Bydd y canllaw yma yn darparu gwybodaeth am y rhain i gyd – a mwy. Yma cewch wybodaeth am:

- Prynu Eiddo
- Eiddo Rhentu Preifat
- Tai Cymdeithasol (yn cynnwys tai gwarchod, tai gofal ychwanegol a tai efo cefnogaeth)
- Rhannu tŷ a stafell sbâr
- Addasiadau i eiddo
- Digartrefedd neu fygythiad o ddigartrefedd

Rydym, fodd bynnag yn cydnabod y bydd sefyllfa pawb yn wahanol. Dyna pam rydym ond galwad ffôn i ffwrdd fel y gallwch drafod eich anghenion tai gyda ni a derbyn cyngor ar yr opsiynau sydd ar gael.

PRYNU EIDDO

Os ydych yn dymuno prynu eiddo ac yn cael anhawster ariannol mae'n bosib y gallwch gael cymorth trwy un o'r cynlluniau isod:

TAI TEG

Mae Tai Teg yn cynnig gwahanol opsiynau ynglŷn ag unedau fforddiadwy sydd ar gael, boed yn eiddo i'w rhentu (rhent canolraddol) neu eiddo i'w prynu sydd yn fwy fforddiadwy nag eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored. Mae'r cynllun yn addas ar gyfer teuluoedd gyda incwm rhwng £16,000 a £45,000 y flwyddyn.
www.taiteg.org.uk 08456 015605

CYNGOR GWYNEDD

Mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg cynllun benthyciad blaendal morgais ar gyfer rhoi cymorth i bobl brynu eiddo am y tro cyntaf.
taigwag@gwynedd.gov.uk 01341 424371

CYMORTH I BRYNU - CYMRU: BENTHYCIAD ECWITI A RENNIR

Mae Cymorth i Brynu – Cymru yn gynllun sy'n rhoi benthyg ecwiti a rennir gyda chymorth Llywodraeth Cymru i bobl allu prynu eiddo newydd. Mae'r benthyciadau ar gael i brynwyr tro cyntaf a phobl sy'n symud tŷ i brynu eiddo newydd gwerth hyd at £300,000.
www.helptobuywales.co.uk

CYMORTH PRYNU

Mae cynllun Cymorth Prynu y Llywodraeth yn gallu helpu pobl nad ydynt yn gallu diwallu eu hangen am dai i brynu cartref addas trwy roi benthyciad ecwiti (30% o'r pris prynu fel arfer, ond gall godi i 50%) i helpu prynu eiddo. Y bwriad yw helpu pobl fyddai angen tai cymdeithasol fel arall.
www.gov.wales

EIDDO RHENTU PREIFAT

Gan fod prinder stoc Tai Cyhoeddus yng Ngwynedd mae rhentu cartref yn y sector preifat yn opsiwn i lawer.

Lle i fynd i chwilio am eiddo preifat:

- Papurau newydd lleol
- Asiant gosod tai neu gwerthwyr tai. Mae nifer ohonynt yn lleol, neu gallwch edrych ar wefannau fel: www.rightmove.co.uk, www.zoopla.co.uk, www.onthemarket.co.uk
- Achredu Landlordiaid Cymru: www.welshlandlords.org.uk

BLAENDAL / BOND

Fe all Tîm Atebion Tai Cyngor Gwynedd helpu hefo bond neu flaendal drwy grant neu fenthyciad os ydych yn dioddef caledi ariannol.
tai@gwynedd.llyw.cymru 01766 771000

Am ragor o fanylion am rentu'n breifat, gan gynnwys gwybodaeth ar eiddo anffit, aflonyddwch landlord a dadfediannu anghyfreithlon cysylltwch â Thîm Sector Preifat Tai y Cyngor.
www.gwynedd.llyw.cymru/taipreifat 01766 771000

RHANNU TŶ A STAFELL SBÂR

Un opsiwn sydd yn werth ei ystyried ydi i rannu eiddo efo pobl eraill. Gall trefniant fel hyn fod o fantais i bawb a gellir rhannu costau byw i arbed arian. Byddwch angen bod yn siwr eich bod yn rhannu efo pobl yr ydych yn gyfforddus byw gyda nhw, a bod cytundeb mewn lle yn nodi beth yw cyfrifoldebau pawb.

Mae nifer o wefannau ar gael gan gynnwys www.spareroom.co.uk a https://uk.easyroommate.com ac wrth gwrs y cyfryngau cymdeithasol.

TAI CYMDEITHASOL

Mae tua 8000 o unedau eiddo cymdeithasol yng Ngwynedd sydd ym mherchnogaeth tri prif cymdeithas dai, sef Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Tai Gogledd Cymru.

- Daw tua 650 eiddo cymdeithasol ar gael i'w osod yn flynyddol, a hynny ar draws Gwynedd.
- Mae yna dai ar gyfer teuluoedd o bob maint, fflatiau ar gyfer aelwydydd llai a byngalos ar gyfer pobl hŷn.
- Mae eiddo cymdeithasol yn cael eu gosod yn unol â'r Polisi Gosod Tai Gyffredin a defnyddir sustem bwyntiau i adlewyrchu'r angen am eiddo.

Os oes gennych ddiddordeb cofrestru am eiddo cymdeithasol, neu os ydych angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd: opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru , 01286 685100, www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

TENANTIAID PRESENNOL

Os ydych eisoes yn denant cymdeithasol ac eisiau trosglwyddo i eiddo cymdeithasol arall, er enghraifft oherwydd bod eich catref presennol yn rhy fawr neu fach, oherwydd gwaith, anabledd ac ati, yna cysylltwch â'r Tîm Opsiynau Tai. Fel arfer ni fydd trosglwyddiad yn gallu digwydd heblaw bod yna angen dilys dros symud.

Os ydych eisiau cyfnewid gyda tenant arall (ffeirio eiddo) dylsech gysylltu yn y lle cyntaf gyda'ch landlord presennol, ond gallwch hefyd gael manylion a chofrestru am gyfnewid trwy ymweld â:

www.homeswapper.co.uk

www.houseswapwales.co.uk

TAI GWARCHOD

Mae rhai Cymdeithasau Tai wedi dynodi rhai o'u heiddo fel 'Tai Gwarchod'. Eiddo yw'r rhain sy'n elwa o wasanaethau warden sy'n ymweld â'r safle'n rheolaidd a gwasanaeth larwm argyfwng. Bydd y criteria oedran ar gyfer rhai safleoedd tai gwarchod yn 55 oed a throsodd ac ar gyfer safleoedd eraill yn 60 oed a throsodd.

Cysylltwch â'r Tîm Opsiynau Tai os oes gennych ddiddordeb cofrestru am eiddo Tai Gwarchod.

TAI GOFAL YCHWANEGOL

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn gynlluniau newydd ar gyfer pobl dros 55 oed sydd gydag anghenion gofal ac anghenion tai. Maent yn fflatiau hunangynhaliol sydd yn eich galluogi i fyw yn annibynnol yn eich cartref eich hun gyda chefnogaeth. Mae nifer o gyfleusterau eraill ar gael megis lolfa gymunedol, bwyty, salon gwallt, a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae dau gynllun yng Ngwynedd, Cae Garnedd, Bangor (Tai Gogledd Cymru) ac Awel y Coleg, Y Bala (Grŵp Cynefin). Mae un arall ar y gorwel yn 2018, sef Hafod Y Gest, Porthmadog (Grŵp Cynefin). Am fwy o fanylion am Tai Gofal Ychwanegol cysylltwch â'r Cymdeithasau Tai yn uniongyrchol.

TAI Â CHEFNOGAETH

Os ydych yn teimlo'n fregus ac angen cefnogaeth i'ch cynorthwyo i fyw yn annibynnol mae nifer o gynlluniau Tai â Chefnogaeth ar gael yng Ngwynedd yn cael eu rhedeg gan asiantaethau sydd yn arbenigo mewn darparu cefnogaeth i bobl sydd wedi profi:

- Trais yn y cartref
- Digartrefedd i bobl ifanc a rhieni ifanc
- Cam-ddefnydd sylweddau
- Digartrefedd
- Hanes o droseddu

Cysylltwch gyda'r Tîm Opsiynau Tai am fwy o wybodaeth.

01492 572727 | 01248 370227
www.nwha.org.uk

0300 111 2122
www.grwpcynefin.org

0300 123 8084
www.ccgwynedd.org.uk

01286 685100
opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru
www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

ADDASIADAU I EIDDO

GRANT NEU FENTHYCIAD CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL
Os ydych yn berchen eich eiddo ond mae angen addasiadau iddo yn sgil oedran neu anabledd gall cymorth fod ar gael i chi.

Os ydych angen addasiadau yn eich eiddo (fel cawod mynediad gwastad, lift grisiau, addasu ystafelloedd, estyniad) i alluogi chi barhau i fyw yn yr eiddo cysylltwch hefo'r Therapydd Galwedigaethol i gael asesiad i edrych os ydych yn gymwys i gael grant neu fenthyciad addasiadau.

Yr unig ffordd i geisio am y grant hwn yw drwy cyfeiriad ffurfiol gan Therapydd Galwedigaethol o Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd. Am fwy o fanylion ynglŷn â grantiau cyfleusterau anabl ewch i wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru neu cysylltwch â'r canlynol:

1. Ardal Llŷn: 01758 704099
   OedolionLlyn@gwynedd.llyw.cymru
2. Ardal Caernarfon: 01286 679099
   OedolionCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru
3. Ardal Bangor: 01248 363240
   OedolionBangor@gwynedd.llyw.cymru
4. Ardal Eifionydd a gogledd Meirionnydd: 01766 510300
   OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru
5. Ardal de Meirionnydd: 01341 424499
   OedolionDeMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

YN BERCHEN EIDDO OND EI SAFON YN WAEL?
Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun benthyciad gwella cartref. Mae benthyciad dewisol hyd at £25,000 ar gael i gynorthwyo perchnogion i wella safon eu heiddo. Cewch fwy o wybodaeth gan Tîm Tai Sector Breifat y Cyngor: tai@gwynedd.llyw.cymru 01341 424351

DIGARTREF NEU WYNEBU DIGARTREFEDD

Os ydych mewn perygl o golli eich eiddo dylech gysylltu gyda'r Tîm Opsiynau Tai am gyngor mor fuan â phosib.

Gall fod gan Cyngor Gwynedd ddyletswydd i:

- asesu eich amgylchiadau
- rhoi cymorth i chi i'ch atal rhag bod yn ddigartref (er enghraifft negodi hefo'ch landlord, cyfeirio at arbenigwyr ar gyngor dyledion, cymodi)
- rhoi cymorth i chi i gael hyd i rhywle i fyw
- darparu eiddo i bobl sydd mewn blaenoriaeth angen
- darparu cyngor ar faterion tai
- darparu llety dros dro mewn rhai amgylchiadau

Gall y Tîm Opsiynau Tai eich cyfeirio at Weithiwr Achos Atebion Tai fydd yn gweithio hefo chi i helpu chi ddatrys eich problem digartrefedd. Cysylltwch gyda'r Tîm Opsiynau Tai am fwy o wybodaeth.

01286 685100

opsiynautai@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

Tîm Opsiynau Tai,
Cyngor Gwynedd,
Penrallt,
Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1BN